# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 2 Chwefror 2024 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 2 Chwefor 2024 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 9 Chwefror 2024 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai ac Eiddo

**PWNC** Gwerthu'r diddordeb rhydd-ddaliadol mewn llain o dir sydd wedi'i leoli ar gyrion Hen Gaeau Rygbi, Tanygrisiau.

**PENDERFYNIAD –** I ganiatáu gwaredu diddordeb rhydd-ddaliadol y Cyngor mewn llain o dir sydd wedi'i leoli yn Hen Gaeau Rygbi yn Nhanygrisiau, ar delerau ac amodau i'w penderfynu gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**


Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Craig ab Iago |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Gethin Jones (Syrfëwr Stadau Cynorthwyol) |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 2 Chwefror 2024 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc :**

Gwerthu’r diddordeb rhydd-ddaliadol mewn llain o dir sydd wedi'i leoli ar gyrion Hen Gaeau Rygbi, Tanygrisiau.

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

I ganiatáu gwaredu diddordeb rhydd-ddaliadol y Cyngor mewn llain o dir sydd wedi'i leoli yn Hen Gaeau Rygbi yn Nhanygrisiau, ar delerau ac amodau i'w penderfynu gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Er mwyn cwblhau trosglwyddiad o ddiddordeb rhydd-ddaliadol y Cyngor mewn llain o dir sy’n weddill i anghenion y Cyngor yn uniongyrchol i unigolyn sydd mewn meddiant o’r safle.


**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Mae trafodaethau mewn cyswllt a’r llain yma o dir wedi cychwyn ers 2010 wedi iddi ddod i’r amlwg fod unigolyn mewn meddiant o’r safle heb gytundeb ffurfiol. Cytunwyd bryd hynny ar delerau i werthu i’r unigolyn hwnw, ond ni gwblhawyd y mater. Yn dilyn archwiliad diweddar o’r safle, fe ail gydwyd yn y trafodaeth ac fe adolygwyd y telerau.

Does dim bwriad derbyn llai na gwerth y farchnad am y tir, a byddai cymeradwyo'r penderfyniad ar gyfer gwerthu'n uniongyrchol i'r darpar brynwr yn golygu bod y Cyngor yn gallu cwblhau'r trosglwyddiad cytunwyd yn flaenorol a hepgor y costau sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw’r tir.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**
Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**
Prif Swyddog Cyllid – “Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol.”
Swyddog Monitro – “Dim sylwadau o safbwynt prioroldeb.”
Aelod/au Lleol (Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn) – Dim gwrthwynebiad.




**Cynllun: Plan:** **Tir yn Hen Gaeau Rygbi, Tanygrisiau**

**Graddfa / Scale @ A4:** 1:1,250

© Hawlfraint y Goron a Hawliau Cronfa Ddata 2020 Arolwg Ordnans 100023387 – Cyngor Gwynedd

**Dyddiad: Date:** 14/03/2023